YR EGLWYS YNG NGHYMRU



THE CHURCH IN WALES

Y Weinidogaeth a Phobl ag Anableddau ac Anghenion Ychwanegol

Adroddiad y Gweithgor

Medi 2011

Ministry and People with Disabilities and Additional Needs

Report of the Working Group

September 2011

Y Weinidogaeth a Phobl ag Anableddau ac Anghenion Ychwanegol

Cyflwyniad

Yn 2002, cymeradwyodd y Corff Llywodraethol a Mainc yr Esgobion 'Strategaeth Anabledd ar gyfer yr Eglwys yng Nghymru' (Atodiad 1). Roedd y strategaeth honno'n adlewyrchu ymateb yr Eglwys i'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd, ac yn ei sgil cynhyrchwyd canllawiau a oedd yn nodi dull holistaidd o fynd i'r afael â gwahaniaethu yn yr Eglwys yng Nghymru. Roedd y canllawiau'n cynnwys datganiad o fwriad clir gyda rhaglen gadarnhaol o fesurau fel darparu gwybodaeth a hyfforddiant, ymgynghori â phobl ag anableddau, ac adolygu gweithgareddau'r eglwys gan ystyried anghenion penodol a mynd ati'n benodol i adolygu ei gwasanaethau cyhoeddus.

Yr Her

Yn 2009 heriwyd y Corff Llywodraethol i feddwl y tu hwnt i'w strategaeth gychwynnol er mwyn sicrhau bod yr Eglwys yng Nghymru yn parhau i ddatblygu ei gallu i gynnwys pawb yng nghymuned ac addoliad yr Eglwys. Gofynnwyd i'r Corff Llywodraethol ymdrin â'r heriau canlynol:

- Ystyried y pwysigrwydd o ddatblygu agwedd sy'n galluogi pobl ag anableddau yn hytrach na gweithredu gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd yn fecanyddol.
- Manteisio ar brofiad ac enghreifftiau o arferion da cyfredol a newydd.

Yr Ymateb

Fel ymateb i'r her, sefydlwyd Gweithgor i lunio argymhellion ar gyfer Mainc yr Esgobion sy'n:

- Datblygu arferion gorau, canllawiau a deunyddiau er mwyn datblygu a darparu gweinidogaeth ar gyfer pobl ag anghenion ychwanegol.
- Cynllunio, darparu neu gomisiynu hyfforddiant ar gyfer clerigion a lleygion.

Mae aelodau a chylch gorchwyl y Gweithgor i'w gweld yn Atodiad 2.

Cynnydd

Mae'r Gweithgor wedi cyfarfod bedair gwaith ers Gorffennaf 2010. Buan iawn y daeth i'r casgliad bod yr her yn un bellgyrhaeddol oherwydd yr amrywiaeth eang o anableddau ac anghenion ychwanegol sy'n bodoli a'r ffaith fod pob un yn gofyn am ymatebion a darpariaethau penodol.

Canfyddiadau a Chasgliadau

Roedd hi'n amlwg i'r Gweithgor fod amrywiaeth o wybodaeth, cyngor a chanllawiau eisoes ar gael yn y DU a chydag enwadau Cristnogol eraill. Dangosodd adolygiad fod llawer o'r deunydd hwn wedi'i baratoi gan sefydliadau ac asiantaethau arbenigol, ei fod yn berthnasol i fywyd yr Eglwys a bodd modd ei argymell fel enghreifftiau o arferion gorau. Mae rhestr o lawer o'r deunyddiau i'w gweld yn Atodiad 3.

Cafwyd canmoliaeth gan y Gweithgor yn benodol am y gwaith sylweddol a wnaed dros nifer o flynyddoedd i ddatblygu gweinidogaeth gyda phobl fyddar, gan nodi gwaith ledled Cymru gan Howard Parcell, Margaret Le Grice ac eraill. Daeth y Gweithgor i'r casgliad y gallai'r Eglwys yng Nghymru ddysgu llawer o'r profiad hwn wrth ddatblygu meysydd arbenigol eraill o'r weinidogaeth.

Pwysleisiodd y Gweithgor pa mor bwysig yw sicrhau bod ymrwymiad yr Eglwys i weinidogaeth gynhwysol yn amlwg i bobl ag anableddau ac anghenion ychwanegol, trwy ystyried arferion gorau wrth weinidogaethu mewn sawl ffordd: trwy wella cyfathrebu a thrwy sicrhau bod y rhai sy'n gyfrifol am ddatblygu'r weinidogaeth a darparu hyfforddiant ar gyfer gweinidogaeth yn ystyried anghenion eang pobl ag anableddau ac anghenion ychwanegol. Mae hyn yn cydnabod y gall anabledd a'r angen am gymorth ychwanegol o bosibl effeithio ar bawb mewn rhyw ffordd ar ryw adeg yn eu bywydau.

Er mwyn deall yn well y darpariaethau sydd eisoes yn bodoli yn yr Eglwys yng Nghymru, aeth y Gweithgor ati hefyd i gomisiynu gwaith ymchwil ar yr arferion cyfredol yn y plwyfi trwy anfon holiadur at bob clerig. Mae copi o'r holiadur a chrynodeb o'r ymatebion i'w gweld yn Atodiad 4. Er bod nifer yr ymatebion a dderbyniwyd yn siomedig, dangosodd yr holiaduron a ddaeth i law fod mynediad corfforol da, cyfleusterau toiled a dolen sain yn cael eu darparu. Cafwyd tystiolaeth hefyd fod llawer o bobl ag anableddau ac anghenion ychwanegol yn ogystal â'u cynhalwyr yn gallu ymdopi a mwynhau addoli heb deimlo eu bod yn cael eu trin yn wahanol.

Nododd y Gweithgor fod ymateb yr Eglwys i bobl ag anableddau ac anghenion ychwanegol i'w weld yn aml wrth ddarparu gwasanaethau achlysurol lle bydd yr Eglwys mewn cysylltiad llawer ehangach â phobl sydd o bosibl yn wynebu amgylchiadau anodd. O ganlyniad, er mwyn i'r Eglwys allu ymateb i anghenion yn briodol, bydd angen sicrhau'r arferion gorau diweddaraf ac annog clerigion a lleygion i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi a dysgu priodol yr Eglwys.

Cydnabu'r Gweithgor hefyd y dylid sicrhau bod adnoddau'n ddwyieithog hyd y bo modd.

Argymhellion

Argymhellion y Gweithgor:

1. Gwahodd y Corff Llywodraethol i fabwysiadu'r Datganiad o Ymrwymiad fel y'i nodir yn Atodiad 5. Mae'r datganiad hwn yn cadarnhau ein penderfyniad i alluogi pobl ag anableddau ac anghenion ychwanegol i gael cyfle i gyfrannu a chyfranogi'n llawn ym mywyd yr Eglwys.

2. Bod y broses o annog ac archwilio datblygiad ysbrydol yn ganolog i'r cyflwr o fod yn ddisgybl, a bod hyn yn cael ei bwysleisio a'i archwilio fel elfen allweddol o holl feysydd y weinidogaeth.

3. Dosbarthu a hysbysebu polisïau cyfredol yr Eglwys yng Nghymru yn eang, gan sicrhau eu bod ar gael ar wefan yr Eglwys yng Nghymru ac mewn adran benodol o'r Llawlyfr Gweinyddu Plwyf.

4. Datblygu llyfrgell o adnoddau ar-lein i helpu cymunedau lleol yr Eglwys i gefnogi pobl ag anableddau ac anghenion ychwanegol.

5. Datblygu hyfforddiant perthnasol i helpu i gefnogi clerigion a lleygion i weinidogaethu i bobl ag anableddau ac anghenion ychwanegol, gan sicrhau bod hyfforddiant o'r fath yn cynnwys rhannu arferion da ac astudiaethau achos i helpu i ddatblygu hyder a chynorthwyo'r rhai sy'n gorfod hwyluso a datblygu cynulleidfaoedd lleol i allu cynnal gweinidogaeth o'r fath.

6. Dylai Mainc yr Esgobion wahodd y rhai sy'n gyfrifol am hyfforddiant cychwynnol a pharhaus i gynllunio hyfforddiant o'r fath ar gyfer clerigion a lleygion ledled y dalaith, gan fanteisio ar yr arbenigedd a'r adnoddau sydd ar gael.

7. Dylai rhaglenni hyfforddi ar gyfer pawb sy'n cychwyn ac yn parhau yn y weinidogaeth, gan gynnwys hyfforddiant ar gyfer Ordeinio, Addysg Weinidogaethol Barhaus Gychwynnol, Hyfforddiant ar gyfer Darllenwyr a datblygu gweinidogaethau lleyg eraill, gynnwys hyfforddiant perthnasol a rheolaidd ar gyfer gweinidogaethu i bobl ag anableddau ac anghenion ychwanegol a dylent ymgorffori'r arferion gorau diweddaraf ac ymwybyddiaeth o bolisïau perthnasol yr Eglwys yng Nghymru.

8. Dylai proses y gyfadran nid yn unig gydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd ond hefyd ymateb i anghenion holistaidd pobl anabl, y rhai ag anghenion ychwanegol a'u teuluoedd a'u cynhalwyr.

9. Cydnabod y pwysigrwydd o ymgysylltu â phobl ag anableddau ac anghenion ychwanegol drwy fuddsoddi mewn adnoddau gan gynnwys gofyn i Esgobaethau nodi "hyrwyddwr" i gefnogi a chynghori plwyfi ac eraill yn yr Esgobaeth.

Archddiacon Morgannwg
Ar ran y Gweithgor
Medi 2011

Atodiad 1

STRATEGAETH ANABLEDD AR GYFER YR EGLWYS YNG NGHYMRU

Cymeradwywyd gan y Corff Llywodraethol ym mis Ebrill 2002 a chan Fainc yr Esgobion

CYFLWYNIAD

Mae yna 8.5 miliwn o bobl anabl ym Mhrydain, sef un o bob saith o'r boblogaeth. Mae anableddau'n cynnwys amrywiaeth eang o anhwylderau corfforol, synhwyraidd a meddyliol ac maent yn effeithio ar bobl o bob oedran mewn cymunedau o bob math ledled Prydain. Mae pobl anabl yn wynebu gwahaniaethu ac allgáu ar raddfa enfawr ond gallent gyfranogi a chyfrannu mwy pe bai cyfleoedd a mynediad i wasanaethau'n cynyddu. O dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995, mae llawer o hawliau a rhwymedigaethau cyfreithiol sy'n effeithio ar bobl anabl eisoes ar waith ym meysydd cyflogaeth, gwasanaethau, addysg, trafnidiaeth a thai.

Mae newid y gyfraith yn creu newid ymarferol go iawn i bobl anabl. Ond mae newid agwedd ac ymwybyddiaeth yn creu newidiadau sy'n costio dim ac sydd yr un mor bwysig. Er gwaetha'r newidiadau hyn, mae llawer o bobl anabl yn ei chael hi'n anodd cymryd rhan mewn bywyd bob dydd ac nid oes ganddynt yr un math o gyfleoedd a dewisiadau â'r rhai y mae pobl nad ydynt yn anabl yn eu cymryd yn ganiataol. Fel darparwr gwasanaethau, mae hyn yr un mor wir am yr Eglwys yng Nghymru.

Mae'r Eglwys yng Nghymru wedi ymrwymo i greu amgylchedd sy'n galluogi pawb, boed yn blwyfolion, yn glerigion, yn weithwyr cyflogedig neu'n ymwelwyr, i addoli a chyfranogi'n llawn ym mywyd yr Eglwys.

Mae'r Eglwys yng Nghymru yn cydnabod bod trefn cymdeithas yn fwy cyfrifol am rwystro pobl anabl rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau arferol na'u cyflwr neu eu hanhwylder. Mae gweithgareddau o'r fath yn cynnwys addoli a chyfranogi ym mywyd yr Eglwys. Yn y cyswllt hwn, mae'r Eglwys yng Nghymru yn cefnogi amcan deddfwriaethol y Llywodraeth o beidio â gwahaniaethu yn erbyn pobl anabl ar sail eu hanabledd drwy eu trin yn llai ffafriol neu fethu â gwneud addasiadau rhesymol ar eu cyfer.

Mae'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd yn amddiffyn oedolion a phlant anabl yn erbyn gwahaniaethu. Mae'r Ddeddf yn diffinio person anabl fel rhywun sydd ag anhwylder corfforol neu feddyliol sy'n effeithio ar ei allu i gyflawni gweithgareddau bob dydd. Bydd yr Eglwys yng Nghymru yn cyfeirio at y diffiniad hwn at ddibenion ei pholisi.

Mae'r datganiad polisi canlynol yn nodi agwedd holistaidd tuag at fynd i'r afael â gwahaniaethu drwy ddatganiad o fwriad clir gyda rhaglen gadarnhaol o fesurau ledled yr Eglwys yng Nghymru. Ymgynghorwyd yn eang â'r Eglwys yng Nghymru a Chomisiynydd Hawliau Anabledd Cymru ar y strategaeth a'r datganiad polisi, ac mae'r Comisiynydd wedi eu cymeradwyo. Mae Mainc yr Esgobion a'r Corff Llywodraethol wedi cymeradwyo eu mabwysiadu ledled yr Eglwys ar lefel plwyf, esgobaeth a thalaith.

YR EGLWYS YNG NGHYMRU

DEDDF GWAHANIAETHU AR SAIL ANABLEDD 1995

Y POLISI

Polisi'r Eglwys yng Nghymru yw peidio â gwahaniaethu yn erbyn pobl ag anableddau mewn unrhyw ran o fywyd na gweithgareddau'r eglwys. Mae'r Eglwys yng Nghymru yn cydnabod bod 'pobl ag anableddau' yn derm derbyniol i ddisgrifio pobl â nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol, niweidiol a hirdymor ar eu gallu i gyflawni gweithgareddau arferol bob dydd.

Pa anabledd bynnag sydd gan rywun, mae'r Eglwys yng Nghymru yn cydnabod bod pob person yn unigolyn, ac y dylid ei drin felly.

Mae'r Eglwys yng Nghymru wedi ymrwymo i wneud addasiadau rhesymol i sicrhau'r canlynol, i'r graddau y bo hynny'n ymarferol: -

- mynediad cyfartal i bobl ag anableddau i allu cyfranogi'n llawn ym mywyd yr Eglwys yng Nghymru

- hybu dealltwriaeth o anabledd fel pwnc sy'n ymwneud â chydraddoldeb yn yr Eglwys yng Nghymru ac yn y gymuned ehangach

- mynediad cyfartal i gyflogaeth gan Gorff y Cynrychiolwyr a chyflogwyr neu asiantaethau eraill o fewn yr Eglwys yng Nghymru.

Bydd yr Eglwys yng Nghymru yn gwneud y canlynol, i'r graddau y bo hynny'n rhesymol:-

- gweithredu mewn ffordd gadarnhaol i unioni'r anghydraddoldebau sy'n wynebu pobl ag anableddau

- rhoi blaenoriaeth uchel i hyrwyddo cydraddoldeb i bobl anabl wrth ystyried pob polisi perthnasol, gan gynnwys dyrannu adnoddau

- ceisio ymateb i effeithiau gwahaniaethu sy'n wynebu pobl ag anableddau yn yr iaith a'r delweddau a ddefnyddir

- adolygu arferion, polisïau a gweithdrefnau i sicrhau nad yw pobl ag anableddau yn cael eu trin yn llai ffafriol oherwydd eu hanabledd

Mae'r Eglwys yng Nghymru yn ceisio defnyddio ei rhwydwaith o sefydliadau a phlwyfi i sicrhau mynediad cyfartal i bob agwedd ar fywyd yr eglwys drwy:-

- geisio sicrhau bod gan bobl ag anableddau hawliau o ran mynediad corfforol a mynediad i wybodaeth am weithgareddau'r eglwys i bob agwedd ar fywyd yr eglwys, yn enwedig addoliad

- sicrhau a pharhau i ddarparu mynediad er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wahaniaethu yn erbyn pobl ar sail eu hanhwylder

- datblygu a chefnogi agweddau ar fywyd yr eglwys sy'n helpu i integreiddio pobl ag anableddau

- cefnogi a hyrwyddo mentrau sy'n cael eu sefydlu a'u rheoli gan bobl ag anableddau er mwyn hybu cydraddoldeb

- ceisio sicrhau bod pobl ag anableddau a'r sefydliadau sy'n eu cynrychioli yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu cyfleoedd mynediad i bob agwedd ar fywyd yr eglwys

- sicrhau bod anghenion pobl ag anableddau yn cael eu deall a'u cynnwys ym meysydd polisi a phenderfyniadau'r Eglwys yng Nghymru.

MYNEDIAD

Bydd yr Eglwys yng Nghymru yn hyrwyddo'r canlynol, i'r graddau y bo hynny'n rhesymol:-

- mynediad i'r amgylchedd adeiledig

- defnydd o Archwiliad o Fynediad i Bobl Anabl, a baratowyd gan Gorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru, i nodi i ba raddau y bydd angen addasu cyfleusterau'r Eglwys yng Nghymru i ddiwallu anghenion pobl ag anableddau

- mynediad i wybodaeth a chyfathrebu gan ddefnyddio'r cymorth priodol yn effeithiol, gan gynnwys, o bosibl, iaith, tâp, Braille, dehongli ar gyfer pobl â nam ar eu clyw, defnyddio iaith arwyddion, systemau minicom a dolen, technoleg fel E-bost a'r Rhyngrwyd.

CYFRIFOLDEB

Bydd yr Eglwys yng Nghymru yn annog:-

- ei holl aelodau, gweithwyr cyflogedig ac eraill sy'n gweithredu ar ei rhan i weithio tuag at ddileu arferion ac agweddau y gellir eu hystyried fel rhai sy'n gwahaniaethu

- pob rhan o'r Eglwys yng Nghymru yn parhau i adolygu ei harferion, ei pholisïau a'i gweithdrefnau ar gyfer cydymffurfio â gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd a pholisi'r Eglwys yng Nghymru.

Atodiad 2

GWEITHGOR

Y WEINIDOGAETH A PHOBL AG ANABLEDDAU AC ANGHENION YCHWANEGOL

Aelodau a Chylch Gorchwyl

Aelodau

Yr Hybarch Christopher Smith – Cadeirydd
Y Parchedig Ganon Joe Griffin
Y Parchedig John Gillibrand
Y Parchedig Peter Mackriell
Ei Anrhydedd Philip Price
Dr Gill Todd
Mrs Julie Davies
Mr John Harris

Ysgrifennydd a Staff Cynghori

Karen Phillips – Pennaeth Adnoddau
Elaine Cloke – Swyddog Amddiffyn y Dalaith

Yn Adrodd i

Mainc yr Esgobion drwy Bwyllgor Amddiffyn y Dalaith.

Cylch Gorchwyl

- Datblygu arferion gorau, canllawiau a deunyddiau ar gyfer datblygu a darparu gweinidogaeth ar gyfer pobl ag anghenion arbennig.
- Cynllunio, darparu neu gomisiynu hyfforddiant ar gyfer clerigion a lleygion.

Mai 2010

Atodiad 3

Cyhoeddiadau, Cyngor a Chanllawiau ar Gynnwys Pobl ag Anghenion Arbennig ac Anableddau ym Mywyd yr Eglwys.

Through the Roof www.throughtheroof.org	All Welcome Canllawiau ar yr arferion gorau ar gyfer cynnwys pobl anabl ym mywyd yr Eglwys
Through the Roof	Be a Roof breaker! Galluogi eglwysi a chymunedau i fod yn llefydd croesawgar a diogel i bawb
Through the Roof	Removing Barriers Pa mor gynhwysol yw'ch eglwys? Adnodd i helpu eglwysi i groesawu pobl anabl a'u cynnwys yn llawn
Through the Roof	Integr8 – International 1 Adnodd ymarferol i helpu arweinwyr Cristnogol i gynnwys pobl ifanc anabl yn eu rhaglenni a'u gweithgareddau
Through the Roof	Hearts in Motion Astudiaeth Feiblaidd chwe gwers yn archwilio anableddau o safbwynt Beiblaidd
Through the Roof	Cardiau/Canllawiau ar gyfer Stiwardiaid a Chroesawyr. Sicrhau bod pobl anabl yn cael eu cynnwys
Gweithgor Anableddau Dysgu Cyngor yr Archesgob / Through the Roof Causeway Prospects – access to life	Opening the Doors (Adroddiad a DVD) Gweinidogaeth ar gyfer pobl ag anableddau dysgu a phobl ar y sbectrwm awtistig
Christian Deaf Link UK	Sign me in! Polisi i gynnwys Pobl Fyddar ym Mywyd yr Eglwys
GO! Sign www.deafchristian.org.uk	Adnoddau Cydenwadol ar gyfer POB eglwys.
Torch Trust www.torchtrust.org.uk	Amrywiaeth o adnoddau a gweithgareddau Cristnogol ar-lein a chyhoeddedig ar gyfer pobl ddall a rhannol ddall

Church for All (ar y cyd â Churches Together yn Lloegr) www.churchesforall.org.uk	Partneriaeth o sefydliadau pobl anabl Cristnogol yn y DU sy'n helpu eglwysi i greu a chynnal amgylchedd sy'n galluogi pobl anabl i gyfranogi'n llawn ym mywyd yr Eglwys
Prospects Access to life www.prospects.org.uk	Adnoddau ar-lein i gefnogi 'Cenhadaeth ar gyfer Pobl ag Anableddau Dysgu'
Cyngor yr Archesgob Eglwys Loegr a'r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl yn Lloegr	Promoting Mental Health: A Resource for Spiritual and Pastoral Care. Adnodd sy'n helpu plwyfi i drafod materion iechyd meddwl, gan gynnwys adrannau ar gynllunio a darparu hyfforddiant a manylion gweithgareddau penodol a sesiynau gweithdy
MIND Cymdeithas Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl www.mind.org.uk	Sefydliad cenedlaethol sy'n hybu gwell dealltwriaeth o iechyd meddwl.
SANE www.sane.org.uk	Elusen iechyd meddwl sy'n darparu cymorth, gan gynnwys taflenni ffeithiau defnyddiol a dolenni i ffynonellau cymorth emosiynol ac ymarferol
Action on Hearing Loss (RNID cynt) www.actionhearingloss.org.uk	Cwmni cofrestredig cenedlaethol sy'n cefnogi pobl â nam ar y clyw
RNIB www.rnib.org.uk	Sefydliad cenedlaethol sy'n cefnogi pobl ddall a rhannol ddall yn y DU
Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol www.equalityhumanrights.com	Codau Ymarfer, Cyngor a Chanllawiau ar Gydraddoldeb i Bobl Anabl – gyda chylch gwaith i fynd i'r afael â gwahaniaethu yn erbyn pobl anabl a hybu cydraddoldeb i bobl anabl
Llyfrgell Newydd Gofal Bugeiliol	Llyfr o'r enw 'The Pastoral Care of People with Mental Health Problems' gan Marian L G Carson, Cyhoeddwyd gan SPCK 2008. Trafodaeth ddefnyddiol o'r mathau gwahanol o anhwylderau meddwl mewn cyd-destun bugeiliol, yn seiliedig ar astudiaethau achos bugeiliol. Llyfr o'r enw 'Disturbed by Mind and Spirit (Mental Health and Healing in Parish Ministry)' gan Gavin a Joanna Knight. Mae'r llyfr yn trafod y rhyngweithio rhwng diwinyddiaeth fugeiliol ac iechyd meddwl ac yn rhoi sylw i'r problemau sy'n codi ym mywyd y plwyf.

Atodiad 4

Y WEINIDOGAETH A PHOBL AG ANGHENION ARBENNIG

Mae llawer o bobl ag anghenion arbennig yn mynychu addoliad yn rheolaidd. Byddwch yn ymwybodol o rai o'r anghenion hyn ond ni fyddwch yn gwybod am fodolaeth rhai ohonynt. Gallai llawer mwy o bobl fynychu addoliad pe bai darpariaeth ddigonol ar gael ar gyfer eu hanghenion arbennig. Er mwyn ein helpu i lunio canllawiau ar ddatblygu gweinidogaeth gyda phobl ag anghenion arbennig, mae'n rhaid i ni ganfod eich barn chi a barn eich Cyngor Plwyf Eglwysig ar y materion hyn.

A fyddech cystal ag ateb y cwestiynau canlynol a dychwelyd yr holiadur yn yr amlen a ddarperir erbyn 30 Mai 2011.

Archwilio Anableddau

A ydych yn ymwybodol o'r canllawiau ymarferol sydd ar gael ar gyfer Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (ar gael gan Gorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru a gwefan yr Eglwys yng Nghymru) ar gyfer archwiliad anabledd?

- Ydw **(79)**
- Nac ydw **(24)**

A ydych wedi cynnal archwiliad anabledd?

- Ydw **(80)**
- Nac ydw **(23)**

Pryd cynhaliwyd yr archwiliad diwethaf a phwy oedd yn gyfrifol amdano?

2011- **12,** 2010 **– 12,** 2009 **– 12,** 2008 **– 11,** 2007 **– 3,** 2006 **– 6,** 2005 **– 4,**
Cyn 2005 **-18.**

Yn gyffredinol, cynhaliwyd yr archwiliad gan y Periglor / Warden Eglwys / Cyngor Plwyf Eglwysig. Defnyddiodd dwy eglwys wasanaethau arbenigol neu sefydliadau anghenion arbennig.

Pa fath o anableddau a amlygwyd gan yr archwiliad?
Golwg,
Clyw,
Symudedd,
Iechyd Meddwl,
Anghenion dysgu arbennig.

Wrth gynnal yr archwiliad, a wnaethoch ofyn i bobl ag anableddau o fewn yr Eglwys neu'r gymuned leol pa faterion roeddent am i chi fynd i'r afael â nhw?

- Do **(65)**
- Naddo **(38)**

Pa fath o bobl a faint o bobl wnaethoch chi ymgynghori â nhw?

Roedd hyn yn amrywio o'r mwyafrif a oedd wedi ymgynghori ag un neu ddau o bobl i ymgynghori â chymuned gyfan o tua 500 (arolwg pentref)

Beth oedd y pryderon arbennig a godwyd gan y rhai yr ymgynghorwyd â nhw neu'r safbwyntiau a fynegwyd amlaf?

Mynediad
Cyfleusterau toiled
System Dolen Sain
Maint print
Llwybrau i fyny
Teimlo'n rhan o bethau heb deimlo'n wahanol

A wnaethoch chi ymestyn eich archwiliad i gynnwys anableddau neu gyflyrau na ellir eu gweld e.e. cyflyrau meddygol, nam ar y synhwyrau, salwch meddwl, anableddau dysgu, clefyd Alzheimer ac anawsterau â'r cof?

- Do **(41)**
- Naddo **(62)**

Addasiadau

Pa addasiadau ydych chi wedi eu gwneud er mwyn cynnwys pobl ag anableddau?

Roedd y newidiadau a nodwyd yn cynnwys:-

Print bras, Braille, taflenni darllen lliw, gwella'r goleuadau, recordio pregethau, defnyddio chwyddwydrau a phaentio grisiau.
Gosod system dolen sain, rhoi litwrgi ar sgrîn, darparu copi ysgrifenedig o'r bregeth ymlaen llaw, defnyddio microffonau.
Rampiau ar gyfer mynediad i gadeiriau olwyn, canllawiau, lledu llwybrau, tynnu seddau ochr i wneud lle ar gyfer cadeiriau olwyn, llefydd parcio i bobl anabl, teclyn dringo grisiau awtomatig.
Gwella cyfleusterau toiled, gwella arwynebau'r meysydd parcio a'r llwybrau.

Sut mae pobl ag anableddau wedi croesawu'r addasiadau hyn?

Cafodd yr addasiadau eu croesawu a'u gwerthfawrogi ar y cyfan, mewn rhai achosion teimlwyd bod angen gwneud mwy a derbyniwyd newidiadau fel mater o gyfiawnder.

Pa anawsterau a gawsoch wrth wneud yr addasiadau?

Roedd yr atebion yn cynnwys:-
Cost
Caniatâd ffacwlti
Cyfyngiadau adeiladau rhestredig
Natur ffisegol yr adeilad

A yw cymuned ehangach yr eglwys wedi croesawu'r addasiadau?

- Ydy **Ychydig iawn o atebion a gafwyd**
- Nac ydy

Pa resymau a roddwyd am beidio â chroesawu'r addasiadau?

Ni chafwyd unrhyw ateb

Gweinidogaeth ac Addoli

Sut gellir gwahodd cymuned ehangach yr eglwys i gymryd rhan mewn gweithgareddau addoli newydd ar gyfer pobl anabl?

Darparu cludiant, defnyddio iaith arwyddion ar gyfer pobl fyddar, hysbysu'r gymuned ehangach a sefydliadau anghenion arbennig am y newidiadau, defnyddio lleoliadau gwahanol i fynd ag addoliad at y bobl yn hytrach na disgwyl iddynt ddod i'r Eglwys, cynnwys Cynghorau Plwyf Eglwysig yn y gwaith o ddarparu gwybodaeth a hysbysebu'r cyfleusterau sydd ar gael.

Sut ydych chi wedi datblygu gweinidogaeth i gynnwys y rhai sydd ar y sbectrwm awtistig neu sydd ag anawsterau dysgu?

Roedd yr atebion yn cynnwys:-
Gwasanaethau llai ffurfiol, defnyddio deunyddiau gweledol, graffeg a cherddoriaeth, cymhorthion addysgu synhwyraidd i hybu cynhwysiant.
Hybu goddefgarwch, cymorth un-i-un, ymweld â chartrefi a chartrefi nyrsio, gweinidogaeth mewn ysgolion anghenion arbennig.
Bod yn gynhwysol ym mhob agwedd ar fywyd yr eglwys gan gynnwys digwyddiadau cymdeithasol

Pa ddarpariaeth arbennig sydd gennych ar gyfer cynhalwyr sy'n mynychu'r eglwys gyda'r rhai sydd angen gofal?

Roedd yr atebion yn cynnwys:-
Seddau ychwanegol, mae aelodau'r eglwys yn cynorthwyo yn ôl yr angen, mae aelodau'r eglwys yn gwarchod fel bod cynhalwyr yn gallu mynychu gwasanaethau, mynediad i lolfa dawel.

Sut ydych chi wedi datblygu gweinidogaeth gyhoeddus er mwyn cynnwys pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl?

Roedd yr atebion yn cynnwys:-
Dangos cydymdeimlad, sefydlu timau bugeiliol, derbyn eraill a pheidio â'u barnu, cymorth un-i-un yn ôl yr angen, ei gwneud yn glir bod pobl yn gallu symud o gwmpas fel y mynnant yn ystod y gwasanaeth, datblygu cysylltiadau â chartrefi gofal lleol, creu awyrgylch hamddenol, cynnig ffurfiau addoli byr a chynorthwyo mewn clinigau iechyd meddwl lleol.

Cyffredinol

A fyddai canllawiau neu adnoddau ymarferol ar gyfer datblygu gweinidogaeth gyda phobl ag anableddau neu grwpiau anghenion arbennig neu hyfforddiant yn eich cynorthwyo i ddeall eich gweinidogaeth gyda phobl ag anghenion arbennig?

- Byddai **(79)**
- Na fyddai **(24)**

Beth fyddai'n eich helpu i ddatblygu'ch gweinidogaeth ar gyfer pobl ag anableddau neu grwpiau anghenion arbennig?

Roedd yr atebion yn cynnwys:-
Grantiau a chyllid, hyfforddiant gan arbenigwyr ar ymwybyddiaeth, canllawiau ar baratoi pobl ar gyfer conffyrmasiwn, canllawiau ar addoliad ar gyfer pobl ag anghenion arbennig, hyfforddiant ar gyfer Cynghorau Plwyf Eglwysig, amser, diwrnodau Addysg Weinidogaethol Barhaus, cyfle i rannu profiadau, rhannu syniadau, adnoddau a llenyddiaeth â phawb.

Pa drefniadau penodol ar gyfer grwpiau anghenion arbennig sydd wedi gweithio'n dda yn eich gweinidogaeth?

Roedd yr atebion yn cynnwys:-
Cyflogi rhywun â sgiliau iaith arwyddion
Gwella mynediad a goleuadau
Cyfarfodydd rheolaidd gyda grwpiau anghenion arbennig
Gwasanaethau eglur a syml
Rhannu digwyddiadau cymdeithasol
Ymgynghori â rhieni a chynhalwyr
System gyfeillio anffurfiol
Defnyddio hen emynau adnabyddus ar gyfer pobl hŷn
Defnyddio uwchdaflunydd ar gyfer gwasanaethau
E-bostio'r bregeth i bobl fyddar cyn y gwasanaeth
Bod yn gynhwysol

Beth yw'r rheswm am lwyddiant y trefniadau hyn yn eich barn chi?

Roedd yr atebion yn cynnwys:-
Darparu amgylchedd diogel i archwilio ffydd a chael hwyl
Aelodau eraill yr eglwys yn eu derbyn
Mae'r rhai sy'n manteisio ar y trefniadau yn teimlo bod eraill yn eu caru ac yn gofalu amdanynt
Ein rôl ni yw gofalu am eraill

A oes unrhyw ddatblygiadau wedi methu?

- Oes **(7)**
- Nac oes **(46)**

Beth oedd y rheswm am eu methiant yn eich barn chi?

Cyfyngiadau ffisegol yr adeilad

A oes gennych unrhyw ddoniau arbennig ym maes gweinidogaeth anghenion arbennig y byddech yn fodlon eu rhannu ag eraill?

- Oes **(15)**
- Nac oes **(63)**

Beth ydyn nhw?

Sgiliau trin pobl
Sensitifrwydd a thosturi
Awydd i fod yn gynhwysol
Profiad personol o anabledd
Profiad blaenorol o addysgu
Cefndir ym maes gofal iechyd meddwl
Cymhwyster Iaith Arwyddion Prydain

Amddiffyn

A ydych wedi darllen canllaw'r Eglwys yng Nghymru, "Canllawiau Polisi ac Arferion Da a Argymhellir – Gweinidogaeth gydag Oedolion sy'n Agored i Niwed" a ddosbarthwyd i glerigion ym mis Mai 2010 ac sydd ar gael ar wefan yr Eglwys yng Nghymru? A yw'ch Cyngor Plwyf Eglwysig wedi'i ystyried eto?

- Ydw **(78)**
- Nac ydw **(25)**

Os NAC YDW, pryd bydd y Cyngor Plwyf Eglwysig yn ystyried argymhellion yr adroddiad?

Yn gyffredinol, yr ymateb i'r cwestiwn hwn oedd rhywbryd yn y dyfodol agos pan fydd amser yn caniatáu.

Amlinellir nifer a dosbarthiad yr ymatebion i'r arolwg hwn ledled y Dalaith isod:

YMATEB TALEITHIOL			**21%**
Nifer y Bywoliaethau	**anfonwyd 490**	**derbyniwyd 103**	
LLANELWY	**85**	**13**	**15%**
BANGOR	**54**	**10**	**18%**
TYDDEWI	**105**	**17**	**16%**
LLANDAF	**110**	**29**	**26%**
MYNWY	**68**	**19**	**27%**
ABERTAWE AC ABERHONDDU	**68**	**15**	**22%**

Atodiad 5

Y Weinidogaeth a Phobl ag Anableddau ac Anghenion Ychwanegol

"Yr wyf yn rhoi i chi orchymyn newydd: carwch eich gilydd. Fel y cerais i chwi, felly yr ydych chwithau i garu'ch gilydd. Wrth hynny bydd pawb yn gwybod mai disgyblion i mi ydych" (Ioan 13: 34-35).

Mae profi cariad Duw yn ganolog i'r alwad i fod yn ddisgybl. Fel disgyblion ein nod yw dilyn Iesu Grist, sydd wedi datgelu cariad perffaith Duw i ni drwy fyw, marw ac atgyfodi ac sydd yn awr yn ein galw i fywyd o addoliad, brawdoliaeth a gwasanaeth fel aelodau o'i gorff, yr Eglwys. Mae cymunedau Cristnogol yn ymdrechu i fod yn amgylchedd sy'n defnyddio'r profiad o gariad Duw i helpu pobl i ddatblygu fel disgyblion trwy dyfu mewn ffydd a rhannu bywyd yr eglwys yn llawn, gan wasanaethu a chael eu gwasanaethu yn enw Iesu Grist. Mewn cymuned eglwys ddilys, mae'r holl aelodau'n teimlo eu bod yn cael eu croesawu, eu cefnogi a'u gwerthfawrogi fel unigolion a bod ganddynt gyfle llawn i gyfrannu a chyfranogi ym mywyd yr eglwys.

Yn 2002 mabwysiadodd yr Eglwys yng Nghymru ei Strategaeth Anabledd a chyhoeddodd ganllawiau ar y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd a oedd yn annog cymunedau lleol o'r eglwys i ystyried y ffyrdd gorau o ddiwallu anghenion pobl ag anghenion arbennig ac anableddau. Dim ond cam cyntaf yn y broses o sicrhau bod pobl yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu a'u cynnwys oedd darparu mynediad corfforol.

Y Weledigaeth

Ein nod wrth gefnogi pobl ag anghenion ychwanegol ac anableddau ar hyd llwybrau ffydd yw creu amgylchedd sy'n galluogi pawb i addoli a chyfranogi ym mywyd yr Eglwys, boed yn blwyfolion, yn glerigion, yn weithwyr cyflogedig neu'n ymwelwyr. Y weledigaeth yw creu Eglwys sy'n gwneud i bawb deimlo eu bod yn rhan gyflawn o Gorff Crist.

Ein Hymrwymiad

Mae'r Eglwys hon yn cadarnhau ei phenderfyniad i ddatblygu ethos sy'n cefnogi pobl ag anghenion ychwanegol mewn ffordd sy'n dangos urddas a pharch ac sy'n sicrhau bod y cyfryw bobl, eu teuluoedd a'u cynhalwyr yn cael yr un croeso, a'u galluogi i dyfu fel disgyblion a'u cynnwys yn llawn yng nghymuned ein heglwys.

Drwy'r Ymrwymiad hwn mae Corff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru yn annog esgobaethau a phlwyfi i hybu ymwybyddiaeth o anghenion ychwanegol pobl anabl a'u teuluoedd a'u cynhalwyr ac i hyrwyddo diwylliant cynhwysol.

Medi 2011